Cofnodion Cyfarfod Cyffredin **CYNGOR TREF RHUTHUN** a gynhaliwyd yn Neuadd y Dref, Ffordd Wynnstay, 24 Ebrill 2017 am 7:00p.m.

PRESENNOL: Y Cynghorwyr Geraint Woolford (Maer), James Bryan (Dirprwy Faer). Y Cynghorwyr Stephen Beach, Bob Costain, June Derry, Ken Hawkins, Menna Jones, Ian Lewney, Robert Owen-Ellis, Anne Roberts ac Emrys Wynne.

232. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

233. DATGAN BUDDIANNAU

Nid oedd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb.

234. CYFLWYNIAD AR GYNLLUNIAU CYDNERTHU CYMUNED

Croesawodd y Maer Ms. Eilwen Jones, Swyddog Rhanbarthol Cynllunio ar gyfer Argyfwng, a roddodd gyflwyniad ynghylch Cynlluniau Cydnerthu Cymuned. Esboniodd bod Cynllun Cydnerthu yn cwmpasu mwy na thrychinebau llifogydd yn unig, a'u pwrpas oedd i'r gymuned fod yn barod ar gyfer unrhyw ddigwyddiad. Rhoddwyd cyfle i'r aelodau holi cwestiynau a gwneud sylwadau, ac awgrymwyd y dylai Hyrwyddwr y Dref, Tîm y Dref a rhanddeiliaid eraill ymwneud â llunio Cynllun Cydnerthu Cymuned Rhuthun.

PENDERFYNWYD*: sefydlu gweithgor bach gyda dau gynrychiolydd o Gyngor Tref Rhuthun, dau o Gyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych a dau unigolyn lleyg i fwrw ymlaen gyda llunio'r Cynllun.*

235. ADRODDIAD Y MAER

Adroddodd y Maer ei fod wedi bod yn y digwyddiadau a ganlyn.

03.03 Ymweliad y Comisiynydd Pobl Hŷn, Llys Erw
09.03 Cyfarfod Grŵp Llywio Rhuthun
13.03 Codi baner Diwrnod y Gymanwlad wrth Neuadd y Sir
18.03 Cinio Elusennol y Maer
27.03 Cyfarfod gyda Denbighshire Free Press ynghylch gyrwyr gwrthgymdeithasol
01.04 Bore coffi'r Gymdeithas Efeillio
03.04 Cyfarfod cangen Rhuthun y Lleng Brydeinig
08.04 Ymgyrch casglu sbwriel y dref
10.04 Beirniadu'r gystadleuaeth hetiau'r Pasg yn y Candyshack
14.04 Cyngerdd Elusennol y Maer
21.04 Agoriad swyddogol Go Training Solutions, Stryd Clwyd

236. ADRODDIADAU'R AELODAU

Cyng. James Bryan	Pwyllgor Gŵyl Rhuthun a noson Cwis Elusennol Maer y Rhyl
Cyng. Stephen Beach	Ymgyrch casglu sbwriel y dref, Gwarchod Cymdogaeth Gogledd Cymru, noson Cwis Elusennol Maer y Rhyl, cyfarfod llywodraethwyr Ysgol Stryd y Rhos a chyfarfod gyda Thîm Tai CSDd
Cyng. Robert Owen-Ellis	Pedair sesiwn Banc Bwyd a chyngerdd elusennol y Maer
Cyng. Ken Hawkins	Ymgyrch casglu sbwriel y dref, bore coffi y Gymdeithas Efeillio a chyngerdd elusennol y Maer
Cyng. Menna Jones	Ymgyrch casglu sbwriel y dref, cyfarfod y Grŵp Dinesydd Da a chyngerdd elusennol y Maer
Cyng. Ian Lewney	Ymgyrch casglu sbwriel y dref a chyfarfod Tîm y Dref
Cyng. Anne Roberts	Cyfarfod Ymlaen Rhuthun ynghylch Carnifal Rhuthun, noson Cwis Elusennol Maer y Rhyl, cyfarfod Ymlaen Rhuthun, cyfarfod RADCA, ymgyrch casglu sbwriel y dref, cyfarfod y Grŵp Dinesydd Da, cyngerdd elusennol y Maer ac agor busnes newydd Go Training

Solutions
Cyng. Emrys Wynne Ymgyrch casglu sbwriel y dref

237. COFNODION Y CYFARFOD CYFFREDIN BLAENOROL
PENDERFYNWYD*: cadarnhau bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Mawrth 2017 yn gywir.*

238. MATERION YN CODI
Esboniodd y Cynghorydd Emrys Wynne nad oedd wedi mynd i gyfarfod Cymdeithas Cynghorau Lleol Gogledd a Chanolbarth Cymru yn y Trallwng a chyflwynodd siec am £32.00 yn ad-daliad am y ddau ginio a archebwyd.

239. Y PWYLLGOR AMWYNDERAU
Cyflwynodd Cadeirydd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Ebrill 2017.
PENDERFYNWYD*: derbyn cofnodion y cyfarfod a chynnal y cyfarfod hwn fel yr ail gyfarfod am 7.30pm yn rheolaidd o hyn ymlaen.*

240. Y PWYLLGOR CYNLLUNIO A DATBLYGU
Cyflwynodd Cadeirydd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Ebrill 2017.
PENDERFYNWYD*: derbyn cofnodion y cyfarfod a chynnal y cyfarfod hwn fel yr ail gyfarfod am 6.45pm yn rheolaidd o hyn ymlaen.*

241. DIWEDDARIAD YNGHYLCH BANC Y NATWEST
Derbyniodd yr aelodau neges e-bost gan Darren Millar AS yn rhoi diweddariad am adeilad Banc y NatWest yn Rhuthun, yn datgan y byddai'r banc yn barod i ddod i drefniant i werthu'r adeilad i'r Cyngor Tref ar brisiad cytunedig. Trafodwyd hyn ac roedd yr aelodau o'r farn y dylid sefydlu gweithgor i lunio cynllun busnes cadarn. Hefyd awgrymwyd y byddai angen cynnal cyfarfod cyhoeddus i ymgynghori â thrigolion y dref.
PENDERFYNWYD*: y dylai'r Maer, y Dirprwy Faer a'r Clerc gyfarfod gyda Gary Williams, Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol gyda Chyngor Sir Ddinbych, i drafod y ffordd ymlaen, yn cynnwys sut y gellid cyllido hyn a'r trafodion cyfreithiol angenrheidiol.*

242. CYRCHFAN TWRISTIAETH SY'N CROESAWU BYSIAU MOETHUS
Ystyriodd yr aelodau sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen i fwrw ymlaen gyda sicrhau'r statws hwn i Rhuthun. Roedd y Cynghorydd Heather Williams wedi cynnig arwain ar hyn.
PENDERFYNWYD*: sefydlu gweithgor yn cynnwys y Cynghorwyr Heather Williams ac Anne Roberts, Peter McDermott o Gyngor Sir Ddinbych a rhanddeiliaid eraill perthnasol.*

243. GWOBRAU DINESYDD DA A PHERSON IFANC Y FLWYDDYN 2017
Derbyniodd yr aelodau'r enwebiad ar gyfer Gwobr Dinesydd Da y Flwyddyn 2017.
PENDERFYNWYD*: cymeradwyo cyflwyno'r Wobr Dinesydd Da y Flwyddyn 2017 i Mrs Ceris Edwards.*

244. COFRESTRIAD DIOGELU DATA
Hysbyswyd yr aelodau ei bod yn ofynnol adnewyddu cofrestriad diogelu data Cyngor Tref Rhuthun ar gost o £35.00.
PENDERFYNWYD*: talu'r ffi adnewyddu'r cofrestriad diogelu data.*

245. HYSBYSIAD ARCHWILIAD MEWNOL
Hysbyswyd yr aelodau am y trefniadau archwiliad mewnol 2016/17 gan JDH Business Services Ltd.
PENDERFYNWYD*: nodi'r wybodaeth.*

246. HYSBYSIAD ARCHWILIAD ALLANOL

Hysbyswyd yr aelodau gan BDO mai'r trefniadau archwiliad allanol ar gyfer 2016/17 oedd arddangos yr hysbysiad rhwng 22 Mai a 4 Mehefin, gyda'r cofnodion i fod ar gael rhwng 5 Mehefin a 30 Mehefin, a'u cyflwyno erbyn dyddiad yr archwiliad, sef 3 Gorffennaf 2017.
PENDERFYNWYD*: nodi'r wybodaeth.*

247. CYFRIFON AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2017
Gofynnwyd i'r aelodau dderbyn a chymeradwyo'r cyfrifon am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2017.
PENDERFYNWYD*: derbyn a chymeradwyo'r cyfrifon.*

248. GOHEBIAETH
Bu'r aelodau'n ystyried yr eitemau gohebiaeth isod:
i. Hwb chwarter biliwn o bunnoedd i gymunedau gwledig Cymru, Rhwydwaith Gwledig
ii. Diweddariad y 'Canllaw'r Cynghorydd Da'.
iii. Ffioedd archwilio a materion eraill yn ymwneud ag archwiliad 2015-16 gan Swyddfa Archwilio Cymru
iv. Digwyddiadau ymgynghori Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych
v. Gwobrau Partneriaeth Datrys Problemau Heddlu Gogledd Cymru.
PENDERFYNWYD*: nodi'r ohebiaeth.*

249. DATGANIAD ARIANNOL
Gofynnwyd i'r aelodau gymeradwyo'r Datganiad Ariannol am y cyfnod yn diweddu 31 Mawrth 2017.
PENDERFYNWYD*: derbyn a chymeradwyo'r Datganiad Ariannol am y cyfnod yn diweddu 31 Mawrth 2017.*

250. CYFRIFON I'W TALU
PENDERFYNWYD*: cymeradwyo talu'r cyfrifon a ganlyn.*

5017	Sandra Williams	Cyflog yn ddyledus		£50.85
5018	Sandra Williams	Costau teithio		£47.70
5019	Cyngor Sir Ddinbych	Cyfraniad i Gyngor Tref Rhuthun		£30,000.00
5020	NMWALC	Dau ginio, cyfarfod chwarterol 21.04.17		£32.00
5021	Cymorth Cynllunio Cymru	2 le hyfforddiant 28.03.17		£31.50
5022	Cylch Ti a Fi Rhuthun	Cymorth ariannol		£200.00
5023	Cynghorydd James Bryan	Costau teithio 28.03.17		£35.50
5024	Zoll Medical UK Ltd	Padiau CPR-D ar gyfer y diffibrilydd	*	£85.14
5025	Dafydd Williams	Adnewyddu'r Norton Anti-virus		£39.99
5026	Marian Rees	Cyfieithu ar y pryd	*	£90.00
5027	Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi	Treth Incwm ac Yswiriant Gwladol		£274.90
S.O.	Canda Copying Ltd	Rhentu'r llungopïwr a chopïau isafswm	*	£129.14
5028	Canda Copying Ltd	Copïau du a gwyn ychwanegol	*	£29.53
5029	Canda Copying Ltd	Copïau lliw ychwanegol	*	£40.94
5030	Llanfwrog CIC	Torri glaswellt x 2 – Ebrill		£342.00
5031	Fineline	Nwyddau swyddfa	*	£39.50

251. DYDDIADAU'R CYFARFODYDD NESAF
PENDERFYNWYD*: cadarnhau mai dyddiadau cyfarfodydd nesaf y Cyngor Tref fydd – Cyfarfod Blynyddol ar 15 Mai a'r Cyfarfod Cyffredin ar 22 Mai 2017, y ddau am 7.00pm.*